Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Camau Cyntaf - First Steps Rhydyfelin**

**Canolfan Blant Integredig Rhydyfelin**
**Holly Street**
**Rhydyfelin**
**Pontypridd**
**CF37 5DB**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

25/10/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Camau Cyntaf - First Steps Rhydyfelin

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Camau Cyntaf i Ddysgu C.B.C |
| Lleoedd cofrestredig | 30 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Hwn oedd yr arolygiad cyntaf ers cofrestru ag AGC. |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae gan y plant gydberthnasau cadarn â'i gilydd ac â'r staff gofal. Mae ganddynt ymdeimlad cryf o berthyn ac maent yn mynegi mwynhad yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd. Maent yn meithrin sgiliau annibyniaeth da iawn drwy brofiadau dysgu dan arweiniad y plentyn.

Mae'r staff gofal yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'r plant ac yn dangos dealltwriaeth a pharch. Maent yn adnabod y plant yn dda ac yn darparu gweithgareddau ystyrlon a diddorol. Maent yn deall ac yn dilyn y polisïau a'r gweithdrefnau, sy'n sicrhau llesiant y plant.

Mae'r amgylchedd yn drefnus ac yn darparu amrywiaeth dda iawn o adnoddau dysgu sy'n meithrin sgiliau'r plant. Mae'r ardal dan do a'r ardal awyr agored wedi'u dylunio'n dda ac yn fuddiol i'r plant. Yn gyffredinol, mae mesurau effeithiol ar waith i gadw'r plant yn ddiogel.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y plant yn cael lefel dda iawn o ofal. Maent yn cefnogi datblygiad proffesiynol y staff ac yn buddsoddi ynddo, gan sicrhau bod pob aelod o'r staff yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi. Mae ganddynt bartneriaethau cadarn â'r rhieni. Maent yn gwneud gwelliannau'n gyson lle bo angen er budd y plant yn eu gofal.

| Llesiant | Da |
|---|---|

Mae'r lleoliad yn canolbwyntio'n sylweddol ar y plant ac mae pwyslais cryf ar roi cyfleoedd i'r plant gyfarwyddo eu chwarae a'u dysgu eu hunain. Mae'r staff yn gwrando ar y plant ac yn gwerthfawrogi pob ymgais i gyfathrebu. Caiff eu hanghenion unigol eu hystyried yn llawn gan fod y staff yn eu hadnabod yn dda. Mae'r staff yn gwrando ar geisiadau'r plant ac yn ymateb iddynt.  Er enghraifft, gofynnodd plentyn am ddiod a bodlonwyd ei gais. Wrth sylwi ar blentyn arall yn gwylio, cydnabu'r aelod o staff ei fod yn sychedig hefyd. Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac mae ganddynt ymdeimlad cryf o berthyn. Nid oedd ein hymweliad yn destun pryder iddynt a daethant atom yn hyderus i sgwrsio'n hapus am eu gweithgareddau. Roeddent yn mwynhau dangos eu hesgidiau gliter newydd i ni. Roedd y plant yn rhyngweithio'n naturiol â'r staff wrth iddynt ddewis eu byrbryd, ac yn mynegi eu hoff bethau a'u cas bethau'n hyderus wrth ystyried y dewisiadau bwyd a oedd ar gael. O ganlyniad, mae'r plant yn teimlo'n ddiogel, yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda ac mae ganddynt gydberthnasau cadarn â phob aelod o'r staff. Mae bron pob un o'r plant yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd ac wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'i gilydd. Mae'r plant yn dysgu sut i reoli eu hymddygiad, cydweithredu, cymryd eu tro a rhannu. Er enghraifft, gwelwyd dau blentyn yn cydweithio i lenwi a gwagio pot mawr gan ddefnyddio dŵr wedi'i liwio. Pan oedd y pot yn llawn, gwnaethant gymryd eu tro i'w wagio, gan sgrechian yn llawn pleser a chyffro wrth iddynt wneud hynny, Mae'r plant yn dyfalbarhau ac yn cynnal eu diddordeb mewn gweithgareddau. Maent yn cael cryn ryddid i archwilio eu hamgylchedd yn ddiogel. Mae'r plant yn symud rhwng ardaloedd dysgu yn annibynnol ac yn teimlo'n gwbl gyfforddus wrth symud rhwng yr ardal dan do a'r ardal awyr agored.

Mae'r plant yn mwynhau eu dysgu ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau dan arweiniad y staff a gweithgareddau annibynnol. Mae ganddynt y cymhelliant i gychwyn eu chwarae eu hunain. Er enghraifft, penderfynodd un plentyn ddefnyddio berfa i symud y pwmpenni o un ardal i'r llall. Gall y plant nad ydynt am gymryd rhan wylio'r plant eraill yn chwarae neu gymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae eraill o'u dewis. Er enghraifft, wrth i un plentyn chwarae â'r ceffyl siglo, roedd plentyn arall yn gwylio ac yn gwenu.  Penderfynodd un plentyn estyn camera ac esgus tynnu llun o'i ffrind ar y ceffyl siglo. Dywedodd “smile for the camera” wrth iddo dynnu'r llun. Cafodd y ddau blentyn ymdeimlad mawr o falchder a chyflawniad.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r staff gofal yn broffesiynol, yn meddu ar y cymwysterau priodol ac yn dangos proffesiynoldeb a diwydrwydd wrth gyflawni eu rolau. Maent yn deall sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'r staff yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn dilyn gweithdrefnau hylendid da ac yn annog y plant i olchi eu dwylo, gan helpu i ddatblygu eu harferion hylendid personol yn effeithiol. Mae gan y mwyafrif o'r staff gofal yn y lleoliad dystysgrifau cymorth cyntaf, hylendid bwyd a diogelu dilys. Mae gweithdrefnau diogelu ar waith i hyrwyddo llesiant y plant. Mae'r staff gofal yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â gweithdrefnau diogelu. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r gwahaniaeth rhwng damweiniau a digwyddiadau. Caiff y rhain eu cofnodi'n fanwl, a hysbysir y rhieni.

Mae'r staff gofal yn fedrus wrth atal ymddygiad digroeso ac maent yn gweithredu'r polisi ymddygiad yn gyson. Maent yn rhyngweithio mewn ffordd gefnogol a chadarnhaol, ac yn cydnabod ymddygiad da gan ddefnyddio rhywfaint o Gymraeg achlysurol fel 'da iawn' a 'diolch'. Maent yn atgoffa'r plant ac yn eu canmol, gan annog ymddygiad da ac annibyniaeth. Er enghraifft, wrth i blentyn geisio reoli balŵn a'i symud o un ardal i'r llall, cafodd ei gefnogi'n effeithiol gan aelod o'r staff. Gofynnodd gwestiynau ac ymatebodd gan ddefnyddio ymadroddion fel *"How can we move it? Yes, we can roll it, you try. You've got it, well done you."* Maent yn gwrando'n astud ac yn holi'r plant yn llwyddiannus er mwyn hyrwyddo cyfleoedd dysgu. Yn ystod cyfleoedd chwarae rhydd, mae'r staff yn rhyngweithio'n gyson â'r plant er mwyn gwella eu dealltwriaeth. Maent yn meithrin sgiliau corfforol y plant drwy gynnig anogaeth gadarnhaol. O ganlyniad, mae'r plant yn dringo ac yn neidio'n frwdfrydig ar gyfarpar antur ac yn cludo ei gilydd o amgylch yr ardal chwarae ar gefn beic. Maent hefyd yn cynnig gweithgareddau creadigol diddorol, fel creu rhythmau gwahanol gydag offerynnau taro a choginio prydau dychmygol yn yr ardal chwarae rôl.

Mae'r staff gofal yn gyfeillgar ac yn ymatebol, ac maent yn rhoi sylw i ddysgu a datblygiad y plant. Sesiwn Saesneg yw sesiwn y bore, ac yn ystod y sesiwn hon mae llawer o'r staff yn defnyddio Cymraeg achlysurol fel "dim ots" a "diolch", ac mae hyn, yn ei dro, yn annog y plant i ddefnyddio eu Cymraeg achlysurol hefyd. Yn ystod sesiwn Gymraeg y prynhawn, nid yw pob aelod o'r staff gofal yn defnyddio'r Gymraeg yn gyson. Maent yn dechrau defnyddio dull mwy ymatebol o gynllunio, ac yn cynnig amrywiaeth eang o weithgareddau. Defnyddir cyfleoedd dysgu sy'n seiliedig ar chwarae a rhyngweithio cadarnhaol i hyrwyddo chwilfrydedd ymhlith y plant a chynnal eu diddordeb. Fodd bynnag, nid yw'r broses gynllunio newydd yn gyson. Defnyddir system gweithwyr allweddol. Mae'r gweithwyr allweddol yn arsylwi ar y plant, yn asesu eu cynnydd unigol ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i lywio'r camau dysgu nesaf.

## Yr Amgylchedd — Da

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ar y cyfan. Mae asesiadau risg ar waith ar gyfer pob ardal o'r lleoliad, sy'n cynnwys diogelwch tân a gweithgareddau'r plant. Fodd bynnag, nid yw'r asesiad risg na'r rhestr wirio ddyddiol ar gyfer yr amgylchedd yn ddigon manwl gan nad yw rhai peryglon posibl wedi cael eu nodi. Er enghraifft, roedd rhai deunyddiau glanhau yn cael eu storio yn nhoiledau'r plant. Gweithredodd y bobl sy'n rhedeg y lleoliad ar unwaith i'w symud. Felly, nid ydym wedi cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio y tro hwn. Mae'r lleoliad yn cael ei redeg o adeilad a rennir y mae gan ddefnyddwyr eraill fynediad iddo. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu mynedfa ac allanfa ddiogel. Gofynnir i ymwelwyr gofrestru wrth brif fynedfa'r adeilad ac eto wrth ddrws y lleoliad. Mae'r plant yn mynd i mewn i'r lleoliad drwy giât ochr sy'n gadarn ac yn cael ei chloi. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr adeilad mewn cyflwr da a bod gwiriadau diogelwch yn cael eu cynnal a'u hadolygu mewn modd amserol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn cynnig cyfleusterau da i'r plant gael gofal. Mae'r ardaloedd chwarae yn groesawgar ac yn cynnig lle i ddysgu mewn man taclus a thawel. Mae'r lleoliad wedi'i addurno'n ystyrlon ac wedi'i osod mewn ffordd sy'n cefnogi datblygiad y plant. Er enghraifft, ceir lle tawel lle y gall y plant ymlacio neu ddarllen llyfr. Mae'r arweinwyr wedi sicrhau bod y toiledau a'r cyfleusterau newid cewynnau yn hyrwyddo annibyniaeth y plant ac yn parchu eu hurddas. Mae'r ardal awyr agored wedi'i dylunio'n dda iawn, gydag ardal fawr dan orchudd a ddefnyddir yn rheolaidd fel rhan o'r drefn o ddydd i ddydd. Ceir gwahanol gyfarpar ac ardaloedd chwarae i'r plant, gan gynnig amryw brofiadau a chyfleoedd chwarae yn yr awyr agored. Er enghraifft, cwch ar gyfer chwarae rôl a phont sy'n herio'r plant yn ystod gweithgareddau corfforol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr adnoddau a'r cyfarpar o ansawdd da, yn lân ac mewn cyflwr da. Mae'r byrddau a'r cadeiriau o faint sy'n addas ar gyfer oedran y plant. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod amrywiaeth eang o adnoddau o ansawdd da ar gael o fewn cyrraedd y plant, sy'n hyrwyddo eu hannibyniaeth. Mae'r rhain yn briodol i oedran a cham datblygiad y plant ac yn hyrwyddo eu chwilfrydedd a'u dysgu. Yn yr awyr agored, ceir digon o adnoddau diddorol gan gynnwys cegin awyr agored beiciau a cheffyl siglo. Caiff profiadau chwarae dychmygol i'r plant eu hyrwyddo drwy ddefnyddio gwrthrychau bywyd go iawn. Er enghraifft, ceir llestri a chyfarpar cegin go iawn yn yr ardal chwarae rôl. Mae nifer o lyfrau a theganau amlddiwylliannol sy'n addas ar gyfer oedran y plant ar gael. Mae'r rhain, yn ogystal â'r llu o adnoddau chwarae, yn ennyn diddordeb y plant yn y gymdeithas ehangach, ac yn dathlu cydraddoldeb ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth Da

Mae trefniadau arweinyddiaeth a rheolaeth y lleoliad yn dda. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau ac maent yn rheoli'r lleoliad yn effeithiol gan ystyried y rheoliadau a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae'r person â chyfrifoldeb newydd ei phenodi wrthi'n ymgyfarwyddo â'i rôl yn y lleoliad. Mae rhwydwaith cymorth cadarn y cwmni a'i brosesau sefydledig o fudd iddi. Mae tîm rheoli'r cwmni yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd â'r lleoliad ac yn rhoi cymorth da i'r tîm er mwyn sicrhau bod anghenion y plant yn cael eu diwallu'n dda bob amser. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y datganiad o ddiben yn cydymffurfio â'r rheoliad perthnasol a'i fod yn rhoi gwybodaeth i'r rhieni am yr hyn y mae'r lleoliad yn ei gynnig. Caiff y datganiad hwn ei ddiweddaru mewn modd amserol i adlewyrchu unrhyw newidiadau yn ôl yr angen.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau diwylliant cadarn o ddatblygiad proffesiynol parhaus. Maent yn cynnal cyfarfodydd goruchwylio ac arfarnu rheolaidd ac mae ganddynt broses sefydlu drylwyr ar gyfer staff newydd ac arweinwyr. Mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn dweud bod y tîm rheoli yn gwrando ar eu barn a bod yr arweinwyr yn rhoi cymorth da. Mae'r staff yn hyderus ac yn frwdfrydig o ran eu gwaith ac maent yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd y maent yn eu cael wrth weithio i'r cwmni. O ganlyniad, mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rheoli'r staff yn effeithiol. Mae'r person â chyfrifoldeb yn cynnal amgylchedd trefnus ac mae'n hawdd cael gafael ar yr holl ddogfennau, y mae trefn dda arnynt. Mae'r holl bolisïau a gweithdrefnau ar waith, yn cael eu diweddaru'n rheolaidd ac yn cynnwys y wybodaeth ofynnol. Mae gwiriadau priodol ar waith i sicrhau bod y staff yn addas i weithio gyda phlant cyn iddynt ddechrau yn eu swydd. Dengys cofnodion yr amser y mae'r staff yn cyrraedd ac yn gadael y lleoliad. Fodd bynnag, nid oeddent yn cofnodi cyfnodau egwyl y staff. Ers ein hymweliad, dywed y bobl sy'n rhedeg y lleoliad wrthym fod y cyfnodau egwyl hyn bellach yn cael eu cofnodi. Mae digon o staff cymwys a phrofiadol i sicrhau bod y plant yn cael gofal da bob amser.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gweithio'n galed i ddarparu gofal o ansawdd da i'r plant a'u teuluoedd. Mae'r adolygiad blynyddol o ansawdd y gofal yn ystyried barn y rhieni a'r gwarcheidwaid, y plant a'r staff. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn awyddus i wella ansawdd y lleoliad yn barhaus, ac maent yn ei fonitro bob hanner tymor. Ceir partneriaethau cadarn iawn â'r rhieni ac mae'r lleoliad yn annog cydweithio er mwyn cefnogi llesiant a datblygiad y plant. Er enghraifft, yn ystod ein hymweliad, trefnwyd sesiwn aros a chwarae i'r rhieni. Cymerodd y rhieni a'r gwarcheidwaid ran weithredol yn nysgu'r plant ac roeddent yn sgwrsio'n anffurfiol â'r ymwelwyr eraill a'r staff. Mae'r holl bolisïau ar gael yn Gymraeg a Saesneg ac anfonir negeseuon dwyieithog at y rhieni. Rhennir gwybodaeth gyffredinol drwy dudalen cyfryngau cymdeithasol gaeedig a chylchlythyrau. Rhennir gwybodaeth am gyflawniadau unigol y plant drwy ap preifat. Roedd y rhieni y gwnaethom siarad â nhw yn gadarnhaol iawn am y lleoliad ar y cyfan a gwnaethant gyfeirio at ansawdd da iawn y cyfathrebu a'r wybodaeth y maent yn ei chael. Roeddent yn canmol y gofal y mae eu plant yn ei gael yn fawr.

**Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

A1. Sicrhau bod y staff yn cofnodi amser dechrau a gorffen eu cyfnodau egwyl.
A2. Adolygu'r asesiadau risg a sicrhau y caiff rhestrau gwirio eu defnyddio fel dogfennau gweithiol.
A3. Sicrhau cysondeb o ran y defnydd o'r Gymraeg yn ystod sesiynau yn unol â'r hyn a nodir yn y datganiad o ddiben.
A4. Sicrhau bod y system gynllunio newydd yn gyson.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn ystod yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** 21/12/2022